# LLYNCU MUL



Mae ffilm fideo o ful treisgar oedd yn dychryn anifeiliaid eraill wedi costio £6,000 i'w berchennog.

Prynodd Andrew Harding, 39, Paco, y mul Sbaenaidd, i'w blant ei farchogaeth ac i'r mul allu chwarae gyda'r anifeiliaid eraill ar ei dyddyn 4 acer.

Cyn bo hir gwelodd Mr Smith, cymydog Andrew Harding, Paco yn brathu ac ysgwyd anifeiliaid eraill a chafodd Andrew Harding ei gyhuddo o ddiofalwch. Penderfynodd y llys ei fod wedi gadael i'r mul anafu'r moch, y geifr a'r defaid oedd ar ei fferm. Gwelodd yr ynadon fideo erchyll o Paco yn cydio yng ngwddf mochyn a'i chwifio yn yr awyr gyda'r mochyn yn sgrechian mewn poen.

Roedd gan Paco hefyd ran ym marwolaeth ei elyn, Pablo, y mul oedd yn y cae y drws nesaf. Roedd y ffaith fod Harding wedi talu am amlosgi Pablo yn awgrymu ei fod yn derbyn ei fod ar fai.

Gorchmynnwyd Harding i wneud 200 o oriau o waith cymunedol a thalu costau o £6,080. Ni chaiff gadw anifeiliaid am dair blynedd.

Yn ystod ymweliadau eraill â thyddyn Harding yn 2009 roedd swyddogion wedi gweld anifeiliaid oedd heb ddŵr i'w yfed a moch newydd-anedig yn crynu gan oerfel a heb ddim cysgod.

Wrth geisio achub ei gam ei hun dywedodd Mr Harding ei fod wedi rhentu'r fferm deuluol yn 2007 fel noddfa iddo ef a'i blant wedi iddo ysgaru ei wraig.

'Roedd yn fferm deuluol,' meddai, 'rhywle i'r plant ddianc rhag yr X-Box. Roedd yn berffaith am ryw ddeunaw mis nes i ni gael y mul. Byddai'r plant yn dod i lawr ar ddydd Sul ac yn cael amser da. Fe wnes i ddychryn pan welais y fideo.'

Dywedodd un o'r ynadon, fodd bynnag, nad oedd Harding wedi dangos unrhyw edifarhad. 'Roeddech yn euog ar wyth cyfrif a chawsoch eich rhybuddio sawl tro. Fe ddewisoch anwybyddu pob rhybudd. Roedd ceisio eich cael i ymateb fel tynnu gwaed o garreg. Dyma sy'n digwydd pan mae pobl yn cymryd anifeiliaid heb wybod sut i ofalu amdanyn nhw'.

Ymateb Harding oedd, 'Nid pobl yn unig sydd â phroblemau meddyliol! Ond mae Paco yn broblem i'r rhai sy'n brwydro dros hawliau anifeiliaid! Lladdwch Paco ac fe ddywedan nhw ei fod yn haeddu byw! A gadael iddo ymosod ar anifeiliaid eraill? Na! Felly, meddan nhw, fe gosbwn ni'r perchennog ac yna fe allwn ei gael o eto pan fydd yn lladd anifail! Ateb synhwyrol! Ie, cosb o £6,000 am greulondeb i anifail ac mae dyn sy'n dwyn £35,0000 o elusen yn gorfod ad-dalu £1! Tegwch llysoedd!'